

## **Bwletin Awdurdod S4C - Tachwedd 2004**

### **CYFARFOD AGORED - CLWB RYGBI CRYMYCH - CRYMYCH**

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 25 Tachwedd 2004 yng Nghlwb Rygbi Crymych. Bu 15 aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elan Closs Stephens, Cadeirydd S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Iona Jones, hefyd yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

#### **Yr 'Idents' ar S4C**

Mynegodd aelod o'r gynulleidfa nad oedd yn arbennig o hapus gyda'r tân a fflamau ar holl 'idents' S4C oedd yn ymddangos cyn rhaglenni. Soniodd bod tân yn fater sensitif iawn yn mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Cydnabuodd Huw Jones y pwynt a wnaethpwyd a soniodd taw'r bwriad oedd i adlewyrchu fflam y ddraig, a oedd wrth gwrs yn symbol Cymreig iawn. Ychwanegodd Iona Jones fod yr Adran Farchnata newydd orffen adolygiad o 'idents' y Sianel, a'i bod hi'n fwriad i gael gwared o'r rhai presennol ac i gyflwyno rhywbeth newydd yn 2005.

#### **Ail Gyfleodd i Wyllo**

Mynegwyd siom bod rhaglenni'n aml yn cael eu darlledu rhyw deirgwaith ar S4C ac roedd hi'n siomedig i droi at raglen a darganfod taw ailddarllediad oedd hi. Holwyd a oedd unrhyw beth y gallai S4C wneud am hyn. Cydnabuodd Iona Jones fod y drefn o roi cyfleoedd ychwanegol i bobl wyllo rhaglenni yn gallu bod yn broblem i wylwyr oedd yn gwyllo S4C yn gyson ac yn dryw i'r Sianel. Soniodd, mewn byd delfrydol a phe bai gan S4C mwy o arian, y byddai hi wrth gwrs yn dymuno comisiynu mwy o raglenni a thorri i lawr ar y nifer o ailddarllediadau. Er hynny, am y tro, fe fyddai'n rhaid parhau gyda'r drefn bresennol.

#### **Dynwared Rhaglenni Saesneg**

Teimlwyd bod yna ormod o raglenni ar S4C oedd yn dynwared rhaglenni Saesneg. Roedd drama yn eithriad i hyn. Gofynnwyd faint o ymchwil yr oedd S4C yn ei wneud parthed yr hyn oedd rhaglenni tramor yn ei gynnig. Teimlwyd bod yna ormod o raglenni arwynebol ar S4C. Atebodd Huw Jones fod yna nifer o raglenni oedd efallai ar themâu oedd i'w gweld ar sianelau Saesneg, ond mewn gwirionedd rhaglenni Cymreig iawn oeddynt a rhoddodd esiampl *Dudley* (coginio) a *04 Wal* (tai). Awgrymodd fod fformat y rhaglen gwis *Risg* hefyd yn unigryw i S4C. O ran *Y Briodas Fawr* yr oedd yn fformat hwn yn un yr oedd Cymru yn medru cymryd i'r byd ac roedd yna nifer o wledydd tramor wedi dangos diddordeb yn ei brynu.

Ychwanegodd Iona Jones nid oedd S4C yn ymgymryd ag ymchwil o'r math holwyd amdano ond soniwyd bod y Sianel yn aelod o'r EBU (sef Undeb Darlledu Ewropeaidd) ac yr oedd comisiynwyr S4C, fel aelodau, yn mynychu cyfarfodydd lle'r oedd comisiynwyr Ewrop yn gallu dysgu o'i gilydd. Ychwanegwyd bod pobl yn tueddu meddwl am *Big Brother* fel rhaglen Saesneg ond, wrth gwrs, syniad a rhaglen a ddaeth yn wreiddiol o'r Iseldiroedd oedd hyn. Eto, cyfeiriwyd at [Cariad@Iaith](mailto:Cariad@Iaith) lle'r oedd syniad nid yn annhebyg i *Big Brother* tu ôl iddi ond rhaglen unigryw Gymreig oedd hon.

## **Risg**

Trafodwyd y rhaglen gwis newydd. Cymysg oedd yr ymateb ymhlith y bobl yn bresennol, gyda rhai bobl yn hoff o'r fformat ond eraill heb eu plesio gydag elfennau eraill o'r gyfres.

## **Oedran Cynulleidfa S4C**

Holwyd beth oedd oedran y bobl oedd yn gwyllo S4C. Teimlwyd nad oedd pobl ifanc yn gwyllo'r Sianel. Atebodd Huw Jones fod hwn yn amrywio o raglen i raglen. Roedd gwylwyr trwm y Sianel yn tueddu o fod o oedran hyn, ond wedi dweud hynny pobl hyn oedd yn tueddu i wyllo fwy o deledu. Roedd y drafodaeth ar ennill gwylwyr o bob oedran yn drafodaeth yr oedd pob sianel yn ei gael, er yr oedd Channel 4 wedi cymryd y penderfyniad i geisio ennill cynulleidfa ifanc. Yn ogystal, un o'r pethau yr oedd teledu digidol wedi'i wneud oedd creu diwylliant lle'r oedd pobl ifanc yn defnyddio y 'zapper' gan neidio o sianel i sianel. Nid oedd yna'r fath deyrngarwch i unrhyw sianel fel ag y bu yn y gorffennol. Roedd bellach yn rhaid ceisio eu denu gyda rhaglenni unigol, ac yr oedd *Bandit* yn gweithio'n dda i S4C yn hyn o beth. Er hynny, yr hyn yr oedd S4C yn ceisio ei wneud fel yr unig wasanaeth deledu Cymraeg oedd i geisio cynnig rhywbeth i bawb am beth o'r amser.

## **Sianel Blant**

Cyfeiriwyd at y sianel CBBC oedd ar gael ar ddigidol. Holwyd oni fyddai'n bosibl i S4C wneud rhywbeth tebyg i hyn. Atebodd Iona Jones fod S4C eisoes wedi penderfynu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar raglenni i blant yn 2005, pan fyddai gwasanaeth estynedig yn cael ei gyflwyno. Ychwanegodd ei bod hi'n ddyhead ganddi i fedru sefydlu sianel i blant o fewn pum mlynedd, gan ddarlledu o 7.00am tan 7.00pm. Fe fyddai'r datblygiadau yn 2005 yn gosod seiliau cryf ar gyfer hyn. Teimlwyd bod S4C yn cael llwyddiant i ddenu plant i wyllo hyd nes eu bod yn cyrraedd tua 10 mlwydd oed, ond yn anffodus roedd y Sianel yna yn eu colli nhw am gyfnod, cyn iddynt droi yn ôl ati nes ymlaen. Soniwyd bod S4C hefyd yn ceisio datblygu nwyddau i gyd-fynd â'i rhaglenni i geisio atgyfnerthu diddordeb plant, drwy gynhyrchu llyfrau, fideos, DVDs ac, yn achos Sali Mali, cynhyrchu dol.

## **Arlwy Estynedig o'r Gwyliau**

Dymunodd aelod o'r gynulleidfa ddiolch i S4C am y gwasanaeth estynedig oedd yn cael ei ddarparu ar y S4C Digidol o'r gwyliau megis yr Eisteddfod, y Sioe Amaethyddol, ac ati. Fel person nad oedd bellach yn gallu teithio o gwmpas rhyw lawer, yr oedd medru gweld yr hyn oedd yn digwydd trwy gydol y diwrnod adeg y sioeau hyn yn cael ei werthfawrogi. Fe wnaeth Iona Jones ddiolch am y sylwadau hyn. Soniodd ei bod hi'n obaith gan S4C i fedru gwneud mwy o'r fath yma o beth ac ychwanegu digwyddiadau nad oedd ar hyn o bryd yn cael llawer o sylw. Roedd hyn yn ffordd i S4C fedru cynnig rhywbeth oedd yn wahanol ac yn werthfawr.

## **Crefydd**

Teimlwyd bod yna ddiffyg sylw yn cael ei roi i faterion crefyddol – nid yn unig Cristnogaeth ond hefyd sylw i grefydd eraill. Teimlwyd ei bod hi'n bwysig i bobl ifanc fedru tyfu i fyny yn gwybod am wahanol grefydd mewn cyd-destun cyfoes. Atebodd Iona Jones fod S4C yn awyddus i geisio adlewyrchu pethau fel yr oeddynt yn sefyll heddiw. Roedd *Nefoedd ar y Ddaear* yn gyfres o chwe rhaglen a ddarlledwyd yn ddiweddar a wnaeth edrych ar bob math o grefydd. Cytunwyd bod angen adlewyrchu pethau yng Nghymru fel yr oeddynt heddiw ac nid cyfleu persbectif hanesyddol yn unig. Efallai yr oedd hi'n wir bod yna dueddiad i ganolbwyntio'n fwy ar y gorffennol yn hytrach na'r presennol.

## ***Pawb a'i Farn***

Trafodwyd y rhaglen *Pawb a'i Farn*. Mynegodd Iona Jones y safbwynt bod hon yn rhaglen bwysig, gan nad oedd yna fforwm o'r fath ar gyfer pobl Cymru. Soniodd y byddai hi'n dymuno ehangu'r rhaglen, drwy'r gwasanaethau yr oedd y byd digidol yn gallu eu cynnig, fel bod pobl yn gallu ymuno yn y sgwrs o adref a bod modd cynnal trafodaeth genedlaethol bob nos lau.

## ***Pobol y Cwm***

Roedd nifer o bobl yn y gynulleidfa'n hoff iawn o *Pobol y Cwm*. Er hynny, dymunwyd gwneud y sylwad bod yna ormod o drais wedi ymddangos yn yr opera sebon yn ddiweddar, yn arbennig felly o gwmpas stori Steffan, pan lofruddiodd Teg.

\*\*\*\*\*

## **CYFARFOD BUSNES – 26 TACHWEDD 2004 - LLECHRYD**

### **Diwrnod i Ffwrdd yr Awdurdod/Ofcom –**

- (a) Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu gwaith adeg y diwrnod i ffwrdd ar 8/9 Tachwedd. Teimlwyd bod camau sylweddol wedi'u cymryd wrth lunio strategaeth S4C i'r dyfodol.
- (b) Aethpwyd ymlaen i gyfeirio at y datblygiadau ers hynny yn deillio o araith Ed Richards, Partner Hyn, Ofcom, parthed dyfodol darlledu yng Nghymru yn ystod seminar yr IWA yng Nghaerdydd ar 18 Tachwedd, pan amlinellodd tri opsiwn posibl: newid yn y berthynas gyda'r BBC; rheolaeth ar y cyd gyda'r BBC; neu'n drydydd, opsiwn ar y model cyhoeddwr sector cyhoeddus. Roedd hi'n dda i weld bod trafodaethau'r Awdurdod yn ei ddiwrnod i ffwrdd heb fod ymhell o'r hyn yr oedd Ed Richards wedi'i grybwyll. Roedd hi'n dda fod Prif Weithredwr S4C wedi gallu ymateb i awgrymiadau Ed Richards adeg seminar yr IWA mewn ffordd oedd yn dangos S4C i fod yn meddwl mewn ffordd fodern.
- (c) Nodwyd y modd yr oedd y cyfryngau (yn benodol y BBC a'r Western Mail) wedi dewis dehongli yr hyn ddywedodd Ed Richards mewn ffordd negyddol o safbwynt dyfodol S4C. Croesawyd y ffaith bod Ed Richards wedi mynd i'r drafferth i ymateb yn y Western Mail i gywiro hyn.
- (ch) Aethpwyd ymlaen i drafod y gwaith oedd wedi mynd yn ei flaen o fewn S4C i ddechrau creu model i'w hun ar gyfer y dyfodol. Roedd disgwyliad y byddai cyhoeddiad adroddiad Dai Davies (ar gyfer y Cynulliad/WDA) ar y diwydiannau creadigol hefyd yn elfen bwysig i'w ystyried wrth greu y model hyn.

### **Partneriaethau**

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol yr Aelodau drwy ei adroddiad. Esboniodd y modd yr oedd wedi gwahaniaethu rhwng yr hyn oedd yn brosiect, yn berthynas, neu yn bartneriaeth gyda chorff arall. Aeth ymlaen i restru'r cyrff hynny lle'r oedd S4C eisoes yn cydweithio gyda nhw a hefyd rhoddodd esiamplau o'r fath o bethau y gellid eu datblygu fel partneriaethau. Croesawodd yr Aelodau yr adroddiad gerbron fel cam sylweddol ymlaen yn y broses o lunio polisi ar gyfer partneriaethau Byddai nawr angen adeiladu ar yr hyn wedi'i gyflwyno.

### **Telerau Masnach**

Adroddodd yr Ysgrifennydd fod cyfarfodydd ychwanegol wedi'u cynnal gyda TAC ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Gobeithiwyd bod telerau nawr wedi'u cytuno a roedd yr Ysgrifennydd yn aros i glywed os oedd Cyngor TAC wedi rhoi ei sêl bendith ar y fersiwn diwygiedig diweddaraf. Y nod oedd i fedru dod i gytundeb cyn y cyfarfod yr oedd Ofcom yn ei gynnal ar 2 Rhagfyr.

## **Cynllun Corfforaethol**

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd yr hyn oedd yn cael ei awgrymu ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2005-2007. Awgrymodd yr Aelodau rhai newidiadau/ychwanegiadau a chytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn diwygio'r Cynllun ac yn ei ail-gyflwyno ar gyfer sêl bendith yr Awdurdod yn y cyfarfod nesaf.

## **Cyllideb Deng Mlynedd**

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr Aelodau drwy'r gyllideb awgrymedig ar gyfer 2005 a blynnyddoedd tu hwnt. Rhoddodd yr Awdurdod ei sêl bendith ar y gyllideb gerbron.

## **Trafodaeth ar Ddarlledu gyda Simon Thomas, AS**

Croesawyd Simon Thomas i'r cyfarfod. Pwrpas presenoldeb yr Aelod Seneddol oedd i drafod y datblygiadau diweddar parthed darlledu yng Nghymru, megis: araith Ed Richards, Ofcom, yn seminar yr IWA; adroddiad y diwydiannau creadigol gan Dai Davies oedd ar fin ei gyhoeddi; safle S4C o ran ei chyfraniad i economi Cymru; a'r gwaith yr oedd S4C wrthi yn ei wneud i gwrdd â sialensiau'r dyfodol yn y byd digidol oedd ar drothwy'r drws.

## **Materion Eraill**

- Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 12 Tachwedd 2004
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol